Rhif: WG39177

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Astudiaeth o barcio yn Llanfair-ym-Muallt

Awst 2020

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80195-459-4

## Cynnwys

1. Cyflwyniad ........................................................................................................1
2. Ymgynghoriad Cyhoeddus ........................................................................................2
3. Dadansoddiad o’r Ymatebion ....................................................................................2
4. Y Camau Nesaf ....................................................................................................10

## 1. Cyflwyniad

Ar hyn o bryd mae Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru, yn cynnal astudiaeth o barcio ar hyd yr A483T Heol Garth, Llanfair-ym-Muallt. Mae’r sefyllfa bresennol yn cael effaith negyddol ar symudiadau traffig a diogelwch pawb sy’n defnyddio’r ffordd.

Comisiynwyd Cyngor Sir Powys, ar ran Llywodraeth Cymru, i ymchwilio i broblemau parcio ar hyd Heol Garth fel rhan o astudiaeth ddichonoldeb.

Mae’r astudiaeth o barcio wedi tynnu sylw at broblem parcio amhriodol ar hyd Heol Garth, sy’n cynyddu’r risg potensial i bobl sy’n defnyddio’r ffordd ac sy’n lleihau lled y ffyrdd, gyda’r potensial i gyfyngu llif y traffig ar hyd yr adran hon o’r A483.

Mae’r Astudiaeth wedi cynnig pedwar opsiwn i’w hystyried ymhellach, sef;

a) Gadael y sefyllfa fel y mae
b) Gwaharddiad newydd sy’n atal parcio ar unrhyw adeg gyda mannau parcio
c) System unffordd trwy Heol Garth
ch) System unffordd newydd, sy’n cysylltu Heol Garth, Heol y Parc a Stryd yr Eglwys.

Dechreuodd yr ymgynghoriad ffurfiol 12 wythnos ar 11 Chwefror 2020 gyda gwybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Dosbarthwyd dogfen ymgynghori gyhoeddus a holiadur hefyd i breswylwyr Heol Garth a rhanddeiliaid allweddol eraill o fewn dalgylch Llanfair-ym-Muallt, gyda dyddiad cau ddydd Mawrth 5 Mai 2020 ar gyfer ymatebion. Roedd digwyddiad galw heibio wedi’i drefnu yn Antur Gwy, Llanfair-ym-Muallt ddydd Iau 19 Mawrth 2020, ond yn sgil y newidiadau cyflym o ran y cyngor a oedd yn cael ei roi oherwydd y brigiad o achosion o COVID-19, penderfynwyd canslo'r sesiwn galw heibio hon.

Gofynnodd yr holiadur i breswylwyr am eu barn ar newidiadau i'r rhwydwaith presennol sy'n cael eu hystyried, ac unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer gwelliannau. Roedd y cynigion yn cynnwys:-

- Gadael y sefyllfa fel y mae
- Gwaharddiad newydd sy’n atal parcio ar unrhyw adeg gyda mannau parcio
- System unffordd trwy Heol Garth
- System unffordd newydd, sy’n cysylltu Heol Garth, Heol y Parc a Stryd yr Eglwys.


Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

## 2. Ymgynghoriad cyhoeddus

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad i gael barn y cyhoedd, casglu adborth ar y cynigion a gyflwynwyd a nodir uchod a chasglu unrhyw awgrymiadau pellach.

Cafodd tua chwe chant o ddogfennau ymgynghori yn cynnwys holiaduron eu dosbarthu drwy'r post at breswylwyr yn ardal Heol Garth, Llanfair-ym-Muallt.

### Cynllun o’r Lleoliad




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2018 Arolwg Ordnans 100025371

## 3. Dadansoddiad o’r Ymatebion

Cafwyd cyfanswm o wyth deg pump o ymatebion i'r ymgynghoriad, gyda saith deg saith wedi'u cwblhau. O'r ymatebion roedd pum deg dau yn ymatebion post ac e-bost, gyda'r tri deg tri o ymatebion a oedd yn weddill yn cael eu cwblhau drwy borth ar-lein Llywodraeth Cymru. Roedd wyth ohonynt wedi'u gwaredu oherwydd nad oeddent wedi'u cwblhau'n ddigonol. Lle y bo'n bosibl, cymerwyd sylwadau o'r ymatebion rhannol. Yn ogystal â'r rhain cafwyd ymateb pellach i'r broses ymgynghori gan y cynghorydd sir lleol. Nid oedd y sylwadau hyn ar fformat y ddogfen ymgynghori ac roeddent yn gysylltiedig â cham dylunio manwl. Roedd hyn yn gwyro tuag at opsiwn hybrid o opsiynau A a B.

Roedd yr holiadur yn cynnwys pum cwestiwn, gyda’r ddau gyntaf yn sefydlu defnydd o'r trefniant presennol. Roedd y trydydd cwestiwn yn gofyn am sylwadau ar ddiogelwch y system bresennol. Roedd y pedwerydd cwestiwn yn gofyn am farn ar y newidiadau posibl i ddiogelwch a gynigiwyd gan yr opsiynau arfaethedig. Gofynnodd y pumed cwestiwn i'r opsiynau gael eu sgorio yn ôl eu dewis. Gofynnodd blychau sylwadau ychwanegol am unrhyw awgrymiadau neu sylwadau pellach, ar gyfer cwestiwn 3 a 5.

Rhestrir cwestiynau 1 i 5 isod gyda'r ymatebion mewn tablau sy'n darparu crynodeb:

**C1. Sut ydych chi'n defnyddio'r system unffordd?** (Dewiswch bob opsiwn sy'n berthnasol ichi).

| Diddordeb | Nifer yr Ymatebion | Canran yr 88 Ymateb |
|---|---|---|
| Yn byw ar Heol Garth | 16 | 18.18 |
| Yn byw yn Llanfair-ym-Muallt | 52 | 59.09 |
| Yn berchen busnes lleol | 8 | 9.09 |
| Ddim yn byw yn Llanfair-ym-Muallt | 3 | 3.41 |
| Arall | 8 | 9.09 |
| Heb ateb | 1 | 1.14 |
| **Cyfanswm** | **88** | **100** |

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, sef pum deg dau (59%) yn byw yn Llanfair-ym-Muallt (heb gynnwys Heol Garth) a/neu'n berchnogion busnes yno, gyda chyfanswm o 16 o ymatebion (18%) gan bobl sy'n byw yn Heol Garth. Roedd tri (3%) o'r ymatebwyr yn bobl nad oeddent yn byw yn Llanfair-ym-Muallt.

Roedd gan ychydig o ymatebwyr sawl defnydd ar gyfer y trefniant presennol, felly roedd y cyfanswm yn uwch na chyfanswm nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Roedd defnydd arall o'r trefniant presennol yn cynnwys: man gwaith, Brigâd Dân, Gyrrwr Cerbydau Nwyddau Trwm a Theithio Llesol.

**C2. Wrth deithio ar y system unffordd, pa ddull trafnidiaeth a ddefnyddir?**
(Dewiswch bob opsiwn sy'n berthnasol ichi)

| Dull Trafnidiaeth | Nifer yr Ymatebion | Canran yr 165 Ymateb |
|---|---|---|
| Cerdded | 57 | 35 |
| Beic | 25 | 15 |
| Beic Modur | 4 | 2 |
| Gyrru | 74 | 45 |
| Arall | 3 | 2 |
| Heb Ateb | 2 | 1 |
| **Cyfanswm** | **165** | **100** |

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr, sef 45%, yn defnyddio Heol Garth fel gyrwyr a/neu gerddwyr. Mae nifer sylweddol yn defnyddio dulliau trafnidiaeth lluosog felly mae'r cyfanswm yn uwch na chyfanswm nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Y dulliau eraill o deithio oedd Sgwter Symudedd, Cerbydau Nwyddau Trwm ac Injan Dân.

**C3. Yn eich barn chi, oes problemau diogelwch gyda'r system unffordd fel y mae ar hyn o bryd**?

| Elfen | Nifer yr Ymatebion | | | Canran yr Ymatebion | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Oes | Nac oes | Heb ateb | Oes | Nac oes | Heb ateb |
| Y ddwy lôn bresennol ar Heol Garth | 69 | 5 | 3 | 90 | 6 | 4 |
| Trefniadau parcio presennol ar Heol Garth | 65 | 9 | 3 | 84 | 12 | 4 |
| Cyfleusterau presennol i gerddwyr ar Heol Garth | 28 | 42 | 7 | 36 | 55 | 9 |

Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr, o'r tri chwestiwn a godwyd ynglŷn â diogelwch, fod problemau diogelwch gyda dau o'r tri mater, sef y lonydd dwyffordd presennol (90%) a threfniadau parcio presennol (84%). Mewn ymateb i bryderon diogelwch o ran cyfleusterau presennol i gerddwyr, roedd mwyafrif is (55%) yn credu nad oedd problem ddiogelwch.

Gofynnwyd am sylwadau ar broblemau diogelwch. Tynnodd mwyafrif helaeth o'r ymatebion sylw at y trefniadau parcio presennol fel ffactor pwysig a/neu fod problem gyda thraffig dwyffordd, ac i ryw raddau mae'r olaf yn ymwneud â pharcio ar Heol Garth. Yn ogystal, roedd llawer o'r sylwadau'n cynnwys yr opsiynau a ddarparwyd gyda'r ddogfen ymgynghori a sut y byddent yn gwella ar y pryderon a oedd gan breswylwyr. Roedd y rhain yn gysylltiedig ag opsiynau C ac Ch, er bod enghreifftiau lle'r oedd sylwadau'n dangos na fyddai'r opsiynau arfaethedig yn mynd i'r afael â'u pryderon diogelwch presennol.

Roedd sylwadau diddorol yn gysylltiedig â'r trefniant yn ystod cyfnod Sioe Frenhinol Cymru, lle mae newid mewn trefniant llif traffig yn digwydd. Mae hyn yn debyg iawn i un Opsiwn Ch. Nododd llawer o sylwadau fod llawer o'r pryderon diogelwch yn lleihau yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, roedd eraill hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod pryderon cyflymder yn ystod y cyfnod hwn ynglŷn â cherbydau sy'n teithio allan o Lanfair-ym-Muallt ar hyd Heol Garth a bod y cerbydau sydd wedi'u parcio yn gweithredu fel mesur tawelu traffig naturiol.

**C4. Oes taw 'oes' oedd eich ateb i gwestiwn 3 – yn eich barn chi sut bydd y cynigion yn effeithio ar y pryderon hyn? Dewiswch un ar gyfer bob un o'r cynigion isod**

| Elfen Arfaethedig | Effaith y Cynnig | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | | 2 | | 3 | | 4 | | 5 | | Heb ateb | | Wedi'u gwaredu | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Opsiwn A | 1 | 1 | 1 | 1 | 47 | 61 | 3 | 4 | 5 | 6 | 18 | 23 | 2 | 3 |
| | | | | | | | | | | | | | | |
| Opsiwn B | 9 | 12 | 24 | 31 | 12 | 16 | 5 | 6 | 4 | 5 | 20 | 26 | 3 | 4 |
| | | | | | | | | | | | | | | |
| Opsiwn C | 20 | 26 | 20 | 26 | 2 | 3 | 8 | 10 | 5 | 6 | 18 | 23 | 4 | 5 |
| | | | | | | | | | | | | | | |
| Opsiwn Ch | 36 | 47 | 11 | 14 | 2 | 3 | 0 | 0 | 8 | 10 | 15 | 19 | 5 | 6 |

Lle mae, 1 – Yn gwella diogelwch – yn dileu pryderon diogelwch, 2 – Ychydig o welliant o ran diogelwch – yn dileu'r pryderon diogelwch i raddau, 3 – Dim newid – y pryderon diogelwch dal yr un peth, 4 – Ychydig o leihad o ran diogelwch – pryderon diogelwch yn gwaethygu rhywfaint, 5 – Diogelwch yn gwaethygu – pryderon diogelwch yn gwaethygu neu'n ychwanegu pryderon eraill.

Dylid nodi nad oedd cryn dipyn o ymatebion yn cwblhau'r adran hon o'r holiadur yn llawn. Mewn llawer o'r achosion byddai ymatebwyr yn sgorio'r opsiynau yr oeddent yn eu ffafrio ac yna'n gadael eraill yn wag. Mae hyn wedi arwain at ganran uchel o ymatebion sydd heb eu hateb ar gyfer yr opsiynau. Lle'r oedd yn bosibl, mae sgorio wedi'i gymhwyso i opsiynau eraill lle nad oedd yr adran o'r ddogfen ymgynghori wedi'i chwblhau'n llawn. Yn ogystal, mae eraill wedi cael eu gwaredu lle rhoddwyd sgôr lluosog i bob opsiwn.

Ar y cyfan, mae'r ymatebion yn gweld yr opsiynau arfaethedig fel gwelliant diogelwch.

Roedd 61% o'r farn y byddai Opsiwn Ch, system unffordd newydd sy'n cysylltu Heol Garth, Heol y Parc, a Stryd yr Eglwys, yn cynyddu diogelwch. Dylid nodi hefyd bod yr un opsiwn wedi arwain at 10% o'r ymatebion yn sgorio hyn fel yr effaith negyddol sydd â'r potensial uchaf i waethygu diogelwch.

Roedd 52% o'r farn y byddai Opsiwn C, system unffordd drwy Heol Garth, yn cynyddu diogelwch, tra bod 16% o'r farn y byddai'n cael effaith negyddol ar ddiogelwch.

Roedd 43% o'r farn y byddai Opsiwn B, Gwaharddiad newydd ar Barcio ar Heol Garth, yn cynyddu diogelwch, tra bod 11% o'r farn y byddai'n cael effaith negyddol ar ddiogelwch.

Roedd 2% o'r farn y byddai Opsiwn A, gwneud dim, yn gwella diogelwch, gyda 10% yn nodi y byddai'r opsiwn hwn yn cael effaith negyddol ar ddiogelwch. Nododd 61% na fyddai'r opsiwn hwn yn gweld unrhyw newid.

**C5. A fyddwch cystal â sgorio'r gwelliannau yn eich dewis trefn, gan ddefnyddio rhifau 1, 2, 3 a 4 (1 = dewis a ffefrir, 4 = y dewis lleiaf dymunol)**

Dylid nodi nad oedd cryn dipyn o ymatebion yn cwblhau'r adran hon o'r holiadur yn llawn. Mewn llawer o'r achosion byddai ymatebwyr yn sgorio'r opsiynau yr oeddent yn eu ffafrio ac yna'n gadael eraill yn wag. Mae hyn wedi arwain at ganran uchel o ymatebion sydd heb eu hateb ar gyfer yr opsiynau. Lle'r oedd yn bosibl, mae sgorio wedi'i gymhwyso i opsiynau eraill lle nad oedd yr adran o'r ddogfen ymgynghori wedi'i chwblhau'n llawn. Yn ogystal, mae eraill wedi cael eu gwaredu lle rhoddwyd sgôr lluosog i bob opsiwn.

| Elfen Arfaethedig | Ffafriaeth | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | | 2 | | 3 | | 4 | | Heb ateb | | Wedi'u gwaredu | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Opsiwn A | 6 | 8 | 7 | 9 | 9 | 12 | 44 | 57 | 8 | 10 | 2 | 4 |
| | | | | | | | | | | | | |
| Opsiwn B | 6 | 8 | 15 | 19 | 30 | 39 | 15 | 19 | 8 | 10 | 3 | 4 |
| | | | | | | | | | | | | |
| Opsiwn C | 17 | 22 | 31 | 40 | 12 | 16 | 7 | 9 | 7 | 9 | 3 | 4 |
| | | | | | | | | | | | | |
| Opsiwn Ch | 43 | 56 | 9 | 12 | 6 | 8 | 9 | 12 | 7 | 9 | 3 | 4 |

Roedd y canlyniadau'n dangos mai Opsiwn Ch oedd yr opsiwn mwyaf ffafriol, gyda 56% o'r ffurflenni'n nodi mai dyma'r opsiwn a ffefrir ganddynt, tra bod 12% wedi'i sgorio fel eu hail opsiwn a ffefrir.

Opsiwn C oedd yr ail opsiwn a ffefrir gyda 22% yn ei nodi fel yr opsiwn a ffefrir ganddynt. Dylid nodi mai hwn oedd yr ail opsiwn a ffefrir fwyaf ar 40% o'r ffurflenni.

Roedd Opsiwn B ac A yn gyfartal o ran bod yr opsiwn a ffefrir yn derbyn 8%. Opsiwn B fodd bynnag oedd yr ail ddewis a ffefrir fwyaf gyda 15%.

Opsiwn A oedd y dewis lleiaf poblogaidd gyda 57% yn ei sgorio'n opsiwn lleiaf dymunol.

**Sylwadau ychwanegol**

Rhoddodd nifer o ymatebwyr awgrymiadau neu sylwadau ac mae'r categorïau ymateb a nifer yr ymatebwyr a soniodd am y themâu wedi'u rhestru isod.

| Categorïau Ymateb | Nifer yr Ymatebwyr a soniodd am y themâu hyn |
|---|---|
| Parcio ar y ddwy ochr yn achosi problem | 45 |
| Cerbydau wedi'u parcio sy'n defnyddio'r palmant yn achosi problemau i ddefnyddwyr sy'n gerddwyr, yn enwedig y rhai sydd â chadair wthio | 10 |
| Problemau gweledEdd ar gyfer cerbydau sy'n mynd i mewn i Heol Garth o'r gylchfan oherwydd cerbydau wedi'u parcio. Mae'r broblem hon yn parhau drwy Heol Garth | 6 |
| Cerbydau wedi'u parcio yn cael eu difrodi oherwydd traffig dwyffordd, a/neu broblemau o ran cyrraedd at gerbydau, yn enwedig gyda phlant | 6 |
| System unffordd yn gweithio yn ystod cyfnod Sioe Frenhinol Cymru | 5 |
| Man cyfyng ger y Greyhound | 5 |
| Mae'r system 2 ffordd arfaethedig yn Stryd yr Eglwys yn broblematig oherwydd y bydd yn creu problemau o ran symudiadau cerbydau a diogelwch | 4 |
| Cynnydd mewn cyflymder traffig drwy Heol Garth gyda system unffordd | 4 |
| Mae'r broblem yn ganlyniad i faint y cerbydau sy'n defnyddio Heol Garth | 4 |
| Lleihau'r terfyn cyflymder i 20mya/ Problem cyflymder presennol | 3 |
| Bydd lledu'r llwybr troed yn arwain at lai o le i barcio a/neu lif cerbydau | 2 |
| Mae angen parcio ar breswylwyr | 2 |
| Traffig dwyffordd yn achosi problemau i gerddwyr a defnyddwyr cerbydau modur | 2 |
| Diffyg manteision o ran Teithio Llesol i'r cynigion | 2 |
| Caniatáu Cyrbau Isel a pharcio oddi ar y stryd i breswylwyr lle bo hynny'n ymarferol | 2 |
| Mae gan breswylwyr ormod o gerbydau | 2 |
| Gall oedi amseroedd ymateb cerbydau brys | 2 |
| Bydd cael gwared ar barcio yn symud y broblem i ran arall o'r dref | 1 |
| Ni fydd gwneud dim fel opsiwn yn gwella'r sefyllfa | 1 |
| Mae system unffordd lawn hefyd yn gwella diogelwch ar gyfer Ysgol Calon Cymru | 1 |
| Bydd system unffordd yn arwain at broblemau mewn mannau eraill a/neu'n cynyddu llygredd a phellter teithio | 1 |
| Bydd cael gwared ar barcio ar y stryd yn lleihau gwerth eiddo | 1 |
| Parcio gan bobl nad ydynt yn byw yma sy'n achosi'r broblem | 1 |
| Ffordd osgoi | 1 |
| Problemau i lorïau graeanu fynd drwodd yn ystod misoedd y gaeaf | 1 |

| | |
|---|---|
| Mae’r cynigion o fudd i lif traffig ac nid i'r preswylwyr | 1 |
| Diffyg camau gorfodi ar gyfer parcio amhriodol | 1 |
| Gwrychoedd preifat yn lleihau lled troedffyrdd | 1 |
| Gwefru Ceir Trydan yn achosi perygl baglu ar droedffordd | 1 |

Yn ogystal â'r sylwadau hyn yn ystod y broses o ddosbarthu’r ymgynghoriad drwy'r post, dywedodd llawer o breswylwyr a pherchnogion busnes fod yn rhaid gwneud rhywbeth o ran y problemau ar Heol Garth. Maent yn cydnabod yn ystod wythnos y Sioe fod y broblem yn cael ei datrys pan fydd system unffordd dros dro yn cael ei chyflwyno. Gwnaeth rhai o breswylwyr Heol Garth dynnu sylw at y ffaith eu bod yn credu bod cyflymderau wedyn yn dod yn broblem, gan fod y ceir sydd wedi'u parcio yn gorfodi defnyddwyr y ffordd i arafu oherwydd eu bod yn gweithredu fel nodwedd gostegu traffig.

**Sylwadau gan endidau eraill**

**Y Gwasanaethau Brys**

Ymgynghorwyd â'r gwasanaethau brys hefyd. Ni chafwyd ymateb ffurfiol gan yr Heddlu.

Mae'r Frigâd Dân wedi ymateb drwy'r ddogfen ymgynghori a ddosbarthwyd i breswylwyr. Yn eu sylwadau maent yn nodi na fyddent o blaid Opsiwn Ch oherwydd eu bod yn defnyddio'r trefniant ffordd presennol ar Heol y Parc i ymateb i argyfyngau.

Cynhaliwyd trafodaeth anffurfiol â Swyddog Heddlu yng Ngorsaf Heddlu Llanfair-ym-Muallt a'r Frigâd Dân ar ddiwrnod y dosbarthiad drwy'r post. Dywedodd Swyddog yr Heddlu bod yn rhaid iddynt ddod allan o'r orsaf i gynorthwyo cerbydau mawr na allent fynd heibio i fan cyfyng ar ben y dref o Heol Garth.

Dywedodd y Frigâd Dân yn anffurfiol nad ydynt yn defnyddio Heol Garth i gael mynediad i'r injan dân ac mai dim ond wrth ymateb i argyfyngau y maent yn defnyddio Heol y Parc. Gwnaethant grybwyll eu bod yn gwrthwynebu'n gryf newid Heol y Parc i system unffordd oherwydd y gallai arwain at gynnydd o ran amseroedd ymateb.

**Teithio Llesol**

Daeth sylwadau i law drwy'r arolwg ymgynghori a thrwy e-bost uniongyrchol ynglŷn â'r diffyg ystyriaeth o ran teithio llesol yn yr opsiynau arfaethedig, er bod yr opsiynau hyn yno i fesur dewis preswylwyr ac nad ydynt mewn unrhyw ffordd yn ddyluniadau terfynol ar gyfer unrhyw gynllun. Dyma'r sylwadau a ddarparwyd gan un o Swyddogion Teithio Cyngor Sir Powys:

*“Ni fydd gadael pethau fel y maent yn gwella'r sefyllfa ond ni fydd yn gwaethygu pethau.*

*Opsiwn B - bydd gosod mannau parcio dynodedig yn lleihau lled y llwybrau troed presennol ymhellach neu'n atal unrhyw waith uwchraddio ar y llwybrau troed presennol yn y dyfodol. Bydd hyn yn cael effaith andwyol ar lefelau teithio llesol ac yn cynyddu tagfeydd traffig a'r galw am fannau parcio ymhellach.*

*Opsiwn C -* (Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol) *Ar hyn o bryd mae Llwybr 43 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn teithio ar y ffordd ar Stryd yr Eglwys a Heol yr Ysbyty. Ynghyd â Llwybr 8 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, dyma'r unig lwybr teithio llesol yn y dref ar hyn o bryd. Gall y newidiadau arfaethedig i gyfeiriad traffig yn opsiwn C gynyddu lefelau traffig wrth gyffyrdd y ffyrdd hyn, a fyddai'n cael effaith negyddol ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol/llwybr teithio llesol.*

*Opsiwn Ch - byddai newid cyfeiriad y traffig yn cael effaith uniongyrchol ar Lwybr 43 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (llwybr Teithio Llesol), gan gynyddu pellter y llwybr, a fyddai o bosibl yn lleihau lefelau teithio llesol."*

Ychwanegodd ail Swyddog Traffig Cyngor Sir Powys y sylwadau canlynol hefyd.

*“Byddai angen ystyried y canlynol fel rhan o unrhyw waith dylunio manwl ar yr*

*opsiynau a ffefrir*

1. *Diogelwch cerddwyr a beicwyr. Ar hyn o bryd mae llwybrau troed yn gul felly dylid ystyried cyfleoedd i ehangu. Efallai na fydd yn bosibl cael llwybrau i safon cyd-ddefnyddio ond dylid eu harchwilio.*
2. *Mae gan ehangu system 1 ffordd botensial i gynyddu cyflymderau. Ystyried 20mya a mesurau gostegu traffig.*
3. *Bydd ehangu'r system 1 ffordd yn creu llwybr hirach i feicwyr. Ystyried llwybr cyd-ddefnyddio/gwrthlif beiciau ar Stryd yr Eglwys."*

## 4. Y Camau Nesaf

O ystyried yr ymateb cadarnhaol i'r cynigion, bydd dyluniad manwl y cynllun yn cael ei wneud yn awr, gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad lle bo angen. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno i'r Gweinidog i benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynigion.

### Nodiadau

Os ymchwilir ymhellach i opsiwn Ch fel y nodwyd o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna oherwydd yr effaith uniongyrchol ar y Llwybr Beicio Cenedlaethol a'r Llwybr Teithio Llesol y byddai'r opsiwn hwn yn effeithio arnynt, byddai angen rhoi ystyriaeth sylweddol yn ystod y cam dylunio er mwyn sicrhau bod y newidiadau'n cefnogi teithio llesol ac nad ydynt yn rhwystro’r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn sylweddol.

Bydd angen cyfathrebu â'r Frigâd Dân o ran amseroedd ymateb Cerbydau Brys os dewisir Opsiwn Ch.